

Celfyddydau Mynegiannol-Cysylltiadau Allweddol gyda Meysydd eraill

Iechyd a Lles	Y Dyniaethau	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnig cyfleoedd ar gyfer symud a dawns creadigol fel gweithgaredd corfforol ac yn ffordd o alluogi dysgwyr i ddatblygu symudiadau echddygol bras a symudiadau echddygol manwl er mwyn cefnogi cyfranogiad mewn gwahanol ddisgyblaethau celfyddydol. Gall cyfranogiad yn y celfyddydau mynegiannol alluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'r hunan, adeiladu hyder, ac archwilio gwahanol ffurfiau o gyfathrebu a chydberthnasau a all gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol.	Mae celf, cerddoriaeth, dawns, theatr, ffurfiau cyfryngol a llenyddol yn ddarnau gwerthfawr o dystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau yn y Dyniaethau ac yn gyfryngau ar gyfer mynegi dehongliadau a safbwyntiau pobl. Mae'r byd naturiol, y gorffennol a'r presennol oll yn ysgogi ac yn cynnig cyd-destunau ym Maes Dysgu y Celfyddydau Mynegiannol. Trwy'r gorffennol a'r presennol mae'r celfyddydau mynegiannol wedi bod yn bwysig wrth lywio diwylliant a chymdeithasau. Mae archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, diwylliannau a chymdeithasau, gan gynnwys o Gymru (e.e. Eisteddfod), yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau pobl eraill yn ogystal â'u diwylliant eu hunain. Gall archwilio cysyniadau cymdeithasol a moesol, cynnaladwyedd a busnes ysgogi gwaith creadigol .	Gall disgyblaethau o fewn y Celfyddydau Mynegiannol gael eu defnyddio fel ffordd i ddysgwyr ddatblygu ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu gan gynnwys trwy lythrennedd gweledol, meddwl creadigol ac ysgrifennu creadigol, deall cynulleidfa a diben ac addasu iaith ar gyfer cynulleidfa, cyflwyno barddoniaeth, drama, ffilm, amlgyfryngau, chwarae rôl a chanu. Mae profiadau o lenyddiaeth yn ei holl ffurfiau ar draws y ddau Faes yma yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sensitifrwydd ac empathi diwylliannol.
Mathemateg a Rhifedd	Gwyddoniaeth a Thechnoleg	
Mae'r defnydd o rifedd a chysyniadau o'r Maes hwn wedi ymwreiddio ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, gan gefnogi pob disgyblaeth. Dylid rhoi ystyriaeth i gyfrif, dilyniannu ac amser, ac archwilio sut y gellir defnyddio gofod, patrymau, cymesuredd, siâp a safle ar draws y celfyddydau. Gellir hefyd archwilio cymarebau, graddfa, cyfraneddau a ffracsiynau yn y Celfyddydau Mynegiannol, er enghraifft mewn cerddoriaeth. Gall defnyddio caneuon a rhigymau gynorthwyo gydag ymwreiddio rhifedd yn ystod y camau cynnydd cynnar.	Mae gan y Meysydd hyn gysylltiadau agos, gyda'r ddau yn dibynnu ar ddulliau tebyg sy'n cynnwys proses o ddarganfod a meddwl dargyfeiriol a chynhyrchu syniadau a all arwain at ganlyniadau creadigol ac arloesedd. Mae meddylfryd dylunio a phrosesau dylunio mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn mynd law yn llaw â dull dylunio ac archwiliad yn y Celfyddydau Mynegiannol, ac hefyd yn cynnwys archwilio gwahanol gyfryngau y gellir eu defnyddio i gyfathrebu dylunio a chreadigrwydd i eraill. Yn y ddau Faes defnyddir dulliau creadigol i archwilio cysyniadau a defnyddiau, yn ogystal â datblygu medrusrwydd â dwylo, cywirdeb, manylrwydd, a chrefftwaith sy'n cefnogi cynhyrchu. Mae gwybodaeth am natur a datblygiad defnyddiau yn bwysig wrth eu dewis ar gyfer dylunio a chynhyrchu a gall hyd yn oed ddealltwriaeth o wyddoniaeth tonnau gefnogi datblygiad a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth.	